Dywedodd Iesu wrtho, “Myfi yw’r ffordd a’r gwirionedd a’r bywyd. Nid yw neb yn dod at y Tad ond trwof fi.”
(Ioan 14:6)

Dyma un arall o’r saith ymadrodd ‘Myfi yw...’ yn efengyl Ioan. Daw’r gosodiad yma mewn ateb i gwestiwn pryderus Thomas ynglŷn â’r ffordd i ble bynnag yr oedd Iesu’n mynd, gan fod bywyd hebddo’n ymddangos yn hunllefus.

Y Ffordd

Byddai’r syniad o ‘ffordd Duw’ yn gyfarwydd i’r Iddew o’r Hen Destament. Mae Moses yn rhybuddio’r bobl yn Deut.5:32: **“Gofalwch wneud fel y mae’r Arglwydd eich Duw yn gorchymyn ichwi; peidiwch â throi i’r dde na’r chwith.”** Mae Dafydd yn gweddïo yn Salm 27:11: **“Dysg i mi dy ffordd, O Arglwydd, arwain fi ar hyd llwybr union.”** Mae’r ddau ddyfyniad yn cario’r syniad o lwybr ufudd-dod neu lwybr cyfiawnder, wrth sôn am ‘ffordd yr Arglwydd’.

Yma mae Iesu’n sôn am y ffordd at yr Arglwydd. Nid yn gymaint ei fod wedi dod i ddangos y ffordd i ni, er ei fod yn gwneud hynny, ond mae’n dod gyda ni ar y ffordd, ac Ef ei hun yw’r ffordd.

Gan ei fod yn Dduw ac yn ddyn, Iesu yw’r Cyfryngwr rhwng Duw a dynion. Fel bu Bendigeidfran yn bont i’w bobl groesi drosti, bu Crist yn bont i’w bobl i groesi i berthynas iawn â Duw. Mae Iesu Grist yn ffordd sydd yn caniatáu trafnidiaeth i deithio i ddau gyfeiriad. Mae Duw yn symud atom ni, a chawn ni symud ato Ef.

Y Gwirionedd

Unwaith eto, roedd y gwirionedd yn bwysig i saint yr hen gyfamod: **“O Arglwydd, dysg i mi dy ffordd, imi rodio yn dy wirionedd”** (Salm 86:11). Ac eto: **“Oherwydd y mae dy ffyddlondeb o flaen fy llygaid, ac yr wyf yn rhodio yn dy wirionedd”** (Salm 26:3). Os mai’r ffordd oedd dechrau llwybr ufudd-dod, y gwirionedd oedd y datguddiad llawnach o Dduw.

Iesu, felly, yw gwir ffynhonnell y datguddiad o Dduw sydd yn ein hachub ni. Mae popeth y gallwn wybod am Dduw, sut i ddod ato, sut i’w blesio, sut i ddod yn debyg iddo, sut i’w fwynhau, yn gynwysedig yn Iesu Grist. Mae’n ymgorfforiad o wirionedd Duw.

Dydy gwirionedd ‘academaidd’ athro dosbarth ddim yn cael ei effeithio gan fuchedd yr athro hwnnw y tu allan i’r dosbarth. Os yw’n athro Mathemateg da, mae ei wersi yn gywir, beth bynnag ei ffordd o fyw.

Gyda gwirionedd moesol mae'n wahanol. Sut all celwyddgi ddysgu pwysigrwydd geirwiredd yn effeithiol? All cybydd ddysgu haelioni? Sut all y sinic ddysgu gobaith i'w ddisgyblion? All godinebwr ddysgu ffyddlondeb priodasol fel pwnc? Roedd y gwirionedd yn fwy na gosodiad o eiddo Iesu, roedd yn ffaith real yn ei fywyd i gyd. Wrth ei fod yn wirionedd Duw, daw'r pwyslais hefyd nad oes twyll yn Iesu Grist. Ni chafwyd twyll yn ei enau am nad oedd yn dwyllwr. Dyna pam y gallwn fentro popeth ar ei addewidion, maen nhw'n siŵr o gael eu hanrhydeddu.

Y Bywyd

"Dangosi i mi lwybr bywyd", medd Salm 16:11. Pendraw y ffordd a'r gwirionedd yw'r bywyd, sef yr adnabod, y cymundeb â Duw. Mae pawb yn y bôn yn chwilio am fywyd sydd werth ei fyw, ac mae'r Beibl yn dweud mai Crist rydd hwn i ni, trwy ein huno â Duw.

Mae marwolaeth yn gwahanu, gwahanu'r corff a'r ysbryd, gwahanu anwyliaid oddi wrth ei gilydd. Mae marwolaeth ysbrydol yn gwahanu dyn a Duw, mae'n torri'r gymdeithas ddylai fod rhyngddynt. Daeth Crist i adfer y berthynas yna, i aduno dyn â'i Greawdwr mewn harmoni tragwyddol. **"Hynny yw, yr oedd Duw yng Nghrist yn cymodi'r byd ag ef ei hun, heb ddal neb yn gyfrifol am ei droseddau, ac y mae wedi ymddiried i ni neges y cymod"** (2 Cor. 5:19).

Crist oll yn oll

Syniad y ffordd sydd amlycaf yn y cyd-destun, ac mae hynny'n amlwg oherwydd cwestiwn Thomas a geiriau Iesu ar ddiwedd yr adnod yma. Serch hynny, mae'r tri disgrifiad gan Iesu o'i hunan yn plethu'n hyfryd i'w gilydd.

Mae hyn yn ein hatgoffa o wirionedd pwysig iawn; nid safbwynt, cyfarwyddiadau nac egwyddor sydd wedi dod i'n byd i'n hachub, ond person gogoneddus yr Arglwydd Iesu Grist. Os trown oddi wrtho, fe gollwn y ffordd; os anwybyddwn ef, byddwn yn siŵr o fod mewn twyll a chelwydd. Hebddo ef, yr ydym yn ysbrydol farw ac yn wynebu marwolaeth dragwyddol.

Diolch bod y cyfan sydd ei angen arnom ynddo Fe:

O f'enaid, gwêl addasrwydd
y person dwyfol hwn,
dy fywyd mentra arno
a bwrw arno'th bwn;
mae'n ddyn i gydymdeimlo
â'th holl wendidau i gyd,
mae'n Dduw i gario'r orsedd
ar ddiafol, cnawd a byd. (Ann Griffiths).